**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:KS/PO/145/2026

Vernon Everitt
Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr
Trafnidiaeth Cymru
Pontypridd

vernon.everitt@tfw.wales

23 Mawrth 2026

Annwyl Vernon,

**Cymorth Ariannol gan Lywodraeth Cymru i Trafnidiaeth Cymru (TrC) 2026-27**

A Llywodraeth Cymru bellach wedi cymeradwyo ei chyllideb derfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27, mae'n bleser gen i gyflwyno manylion eich trefniadau cyllido i chi.

Rwyf wedi cymeradwyo cyfanswm cyllideb flynyddol ar gyfer TrC ar gyfer 2026-27 o £418.726m o refeniw a £238.066m o gyfalaf. Caiff TrC ysgwyddo gwariant yn y flwyddyn ariannol dan sylw hyd at derfyn pob llinell cyllideb, yn unol â'r nodau strategol yn y Llythyr Cylch Gwaith cyfredol, y gweithgareddau y cytunwyd arnynt ac a ddisgrifir yn Strategaeth Gorfforaethol a Chynllun Busnes TrC, eich Cynllun Busnes Blynyddol ac Erthyglau Cymdeithasu a Chytundeb Rheoli TrC.

Yn ogystal, bydd disgwyl i TrC weithio'n agos gyda'r llywodraeth newydd i sicrhau y cydymffurfir â'i blaenoriaethau a'i hamcanion. Bydd y cydweithrediad hwn yn cynnwys tymor cylch gwaith y llywodraeth wedi'i adnewyddu ar gyfer TrC sy'n adlewyrchu cyfeiriad polisi'r weinyddiaeth newydd a disgwyliadau'r sefydliad ar gyfer tymor y llywodraeth. Bydd ymgysylltu cynnar yn hanfodol i lunio blaenoriaethau strategol, sicrhau parhad gwasanaethau, a chefnogi uchelgeisiau ehangach y llywodraeth newydd.

Rhaid i'ch gweithgarwch a'ch gwariant gyd-fynd â'r dyraniad ar gyfer Llinellau Gwariant Cyllideb Llywodraeth Cymru a nodir isod. Rhaid i unrhyw amrywiadau i'r proffil hwn gael eu trafod gan eich tîm partneriaeth a'r swyddogion polisi perthnasol a fydd angen cymeradwyaeth ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru cyn y gellir cytuno ar unrhyw amrywiad. Mae hyn yn cynnwys unrhyw newidiadau a ddaw yn sgil newid blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a/neu faint o arian fydd ar gael yn y gyllideb. Bydd angen adroddiad cyllid misol er mwyn caniatáu i Lywodraeth Cymru fonitro ac adrodd ar wariant.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw'r cyllid hwn yn cynnwys y dyraniad gan Lywodraeth y DU a ffynonellau eraill sydd eto i'w cytuno ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Rydym yn disgwyl i hyn gynnwys tua £24m gan yr Adran Drafnidiaeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r cyllid hwn maes o law.

Rydym yn cydnabod y gall y ffigurau hyn olygu pwysau ariannol ar gyllido’r rheilffyrdd o’u cymharu â rhagolygon ariannol eich Cynllun Busnes ac y byddwn yn parhau i weithio gyda chi i fynd i'r afael â nhw a’u lliniaru, yn ogystal â chynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

**Dyraniad BEL Refeniw (£m)**

| Is-adran | Llinell Wariant yn y Gyllideb | | Cyllideb Derfynol | Dyraniad TrC |
|---|---|---|---|---|
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd | 1895 | 403.842 | 402.422 |
| | Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau | 1880 | 149.146 | 12.000 |
| Strategaeth Drafnidiaeth | Datblygiadau Polisi a Phrosiectau Cenedlaethol | 2030 | 7.200 | 3.779 |
| Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | Gweithrediadau ac Adnewyddu Rhwydwaith | 1885 | 127.735 | 0.525 |
| | **Cyfanswm** | | | **418.726** |

**Dyraniad BEL Cyfalaf (£000)**

| Is-adran | Llinell Wariant yn y Gyllideb | | Cyllideb Derfynol | Dyraniad TrC |
|---|---|---|---|---|
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd | 1895 | 180.333 | 161.333 |
| | Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau | 1880 | 49.920 | 49.920 |
| Strategaeth Drafnidiaeth | Trafnidiaeth Ranbarthol ac AT | 1882 | 128.437 | 24.300 |
| | Datblygiadau Polisi a Phrosiectau Cenedlaethol | 2030 | 4.800 | 1.549 |
| Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | Gweithrediadau ac Adnewyddiadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 1885 | 195.320 | 0.964 |
| | **Cyfanswm** | | | **238.066** |

Efallai y bydd gofyn i TrC ymgymryd â gweithgareddau eraill yn ystod y flwyddyn, yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y Cynllun Busnes, yn amodol ar gymeradwyaeth weinidogol ac os bydd cyllid ar gael. Bydd unrhyw weithgareddau ychwanegol i TrC yn gorfod mynd trwy’r Broses Rheoli Newid, a bydd unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei gynnwys mewn llythyr cyllid ategol.

Yn unol â'ch Erthyglau Cymdeithasu, bydd angen caniatâd ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw drafodion tir / eiddo (gan gynnwys gwerthiannau, lesoedd) nad ydynt wedi'u rhestru yn y traciwr trafodion tir cyfredol.

Er mwyn i TrC allu tynnu cyllid i lawr fel ôl-daliadau ar sail gwariant gwirioneddol, byddwn yn ystyried darparu ychydig bach o gyfalaf gweithio ymlaen llaw. Bydd hyn yn gwella cywirdeb taliadau trwy eu seilio ar wariant gwirioneddol, yn hytrach na symiau rhagolwg. Nodir telerau ac amodau'r setliad cyllideb hwn yn Atodiad 1.

Cyhoeddir y llythyr hwn ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for Transport and North Wales

**Atodiad 1: Amodau a Thelerau’r Cyllid**

Mae'r Llythyr Cylch Gwaith dyddiedig 21 Gorffennaf 2023 a’r Fframwaith Rheoli a roddwyd i TrC yn nodi nifer o ofynion gweithredol ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau'r llywodraeth y mae'n rhaid i TrC gadw atyn nhw, yn ogystal â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ei hun fel rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.
Bydd y cyllid y cyfeirir ato yn y llythyr hwn yn cael ei dalu i TrC fel grant bob mis ymlaen llaw yn seiliedig ar hawliad misol y Cwmni. Caiff y taliadau ymlaen llaw i'r Cwmni eu gosod yn erbyn terfynau ariannu cronnus y grantiau misol a dynnir i lawr. Bydd cyllid ar gyfer eitemau y bydd yn rhaid talu TAW arnynt yn cael ei ddarparu ar sail yr anfonebau a gyflwynir gan TrC. Bydd gwariant cronnus y Cwmni yn cael ei gysoni yn ystod y flwyddyn ariannol.

Bydd cyllid yn cael ei ddarparu yn unol â’r canllawiau cyllidebu i gyrff cyhoeddus a dylid ei ddefnyddio ac adrodd arno yn unol â’r canllawiau hynny.

Rhaid ichi sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n gydnaws â Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 a'r cytundebau cymwys a gynhwysir yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE ac unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU a Phrotocol Gogledd Iwerddon.

Mae'r Terfyn Cyllido Refeniw Cronnus a'r Terfyn Cyllido Cyfalaf Cronnus yn cynnwys unrhyw TAW y mae TrC yn atebol amdano ond na fydd gallu ei gael yn ôl.

Er bod yn rhaid i TrC fel cwmni cyfyngedig drwy warant gynhyrchu ei gyfrifon blynyddol yn unol â'r Ddeddf Cwmnïau, fel cwmni sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru, mae hefyd gofyn iddo gyflwyno cyfrifon wedi'u haddasu i Lywodraeth Cymru sy'n cydymffurfio â’r gofynion cyfrifyddu ar gyfer Cyrff Cyhoeddus a nodir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM). Bydd y cyfrifon wedi’u haddasu hyn yn cael eu cyfuno yng nghyfrifon grŵp Llywodraeth Cymru. Nodir yr amserlen ar gyfer eu cyflwyno yn y Cytundeb Rheoli. Hefyd, os bydd gan weithred gan TrC oblygiadau cyllidebu neu gyfrifyddu i Lywodraeth Cymru, yna mae dyletswydd ar TrC i’w nodi cyn gynted ag y gall a rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru beth yw'r goblygiadau hynny.

Mae'r ffigur cyfalaf cymeradwy ar gyfer cymorth grant yn cynnwys cymeradwyaeth i brynu'r parseli tir a nodir yn eich Cynllun Busnes 26/27, ar yr amod eich bod yn eu caffael yn unol â phrisiadau Llyfr Coch Trysorlys EF. Mae angen rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo os na fydd modd eu caffael yn unol â’r prisiadau hynny gyda nodyn oddi wrth y Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau ei fod yn fodlon â'r gwahaniaeth.

Eich cyswllt o ddydd i ddydd â Llywodraeth Cymru yw’r tîm partneriaeth (TransportSponsorship@llyw.cymru). Bydd y trefniadau goruchwylio a monitro y cytunir arnynt rhyngoch chi a'ch tîm partneriaeth yn sicrhau y cydymffurfir â Chynllun Busnes TrC a safonau ariannol Llywodraeth Cymru.